Annwyl Dylan,

Pwy feddyliai y byddai Llywodraeth Glymblaid Plaid Cymru a Llafur yn rhoi ergyd farwol i'r BYD trwy gynnig cardod mor dila?

Pa genedl gydag unrhyw hunan-barch sydd heb bapur dyddiol yn ei hiaith gynhenid?

Ond fe'n diraddiwyd, ac mae'r gelyn yn ein plith ni'n hunain.

Ond nid dyma'r gair olaf, does bosib. Fe wnaeth y Blaid Doriaidd Lundain-ganolog dro pedol gydag S4C. A oes unrhyw rai yn ein cynulliad cenedlaethol ni'n hunain a all wneud yr un peth dros bapur dyddiol?
Daeth yn ddydd o brysur bwyso arnom fel cenedl, ac fe'n cafwyd yn brin yn y glorian.

Yn ddiffuant,

Yr Athro John Rowlands